Page 1

ClwydAlyn I *Llwybrau*

Cynnal

*Trosolwg o'r Swydd*

Llwybr Gweinyddwr Swyddfa

- £16,610 neu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol y flwyddyn, pro rata
- Cynyddiadau cyflog blynyddol ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn costau byw
- Cyflog ar ôl cymhwyso, tua £23,000 y flwyddyn, pro rata
- V72, Llanelwy
- 37 awr yr wythnos

***Mynediad i'r llwybr:*** *Sgiliau Mathemateg a Saesneg a TG sylfaenol*

***Cymwysterau:*** *Gwybodaeth am systemau TG, Profiad o weinyddiaeth swyddfa, Microsoft Word / Excel, Sgiliau cyfathrebu a threfnu da*

LOGO in CIRCLE

Our Homes = Ein Cartrefi

Our Business = Ein Busnes

Our Residents = Ein Preswylwyr

Page 2

Cyfrifoldebau

Manylion yr Unigolyn

Diben

Mae'r Gweinyddwr Swyddfa yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r gymdeithas dai i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon, gan alluogi staff i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd tra'n sicrhau yr ymdrinnir â thasgau gweinyddol yn effeithiol ac yn broffesiynol.

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Darparu cymorth gweinyddol yn y Tîm Cynnal ar draws sawl ffrwd waith, fel, Trydanol, Plymio a Gwresogi a gwaith arall wedi'i gynllunio, i sicrhau bod gwaith gweinyddol y tîm cynnal yn rhedeg yn llyfn.
- O dan gyfarwyddyd y Rheolwr neu'r Goruchwyliwr, cysylltu â staff, preswylwyr o bosibl, a chontractwyr, e.e. dogfennau gofynnol, gwneuthurwyr ceginau a chyrff allanol eraill i gyfrannu at y gwaith o redeg y rhaglen waith a gynlluniwyd yn llyfn.
- Ar y cyd â'r Rheolwr / Goruchwyliwr ac yn eu habsenoldeb, bod yn gyfrifol am weinyddiaeth gyffredinol y tîm cynnal

**Gwybodaeth a galluoedd**

- Dangos dealltwriaeth o'r grwpiau cleientiaid ym maes cynnal, yn benodol mewn perthynas â materion gweinyddol.
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau swyddfa cyffredinol, cadw cofnodion, prosesu geiriau, ffeilio, llungopïo, cofnodi galwadau ffôn i'r swyddfa, a phost a dderbynnir /anfonir.
- Gallu i sefydlu a chynnal perthynas dda gyda phreswylwyr, staff a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol dros y ffôn, drwy e-bost, yn ysgrifenedig, ac wyneb yn wyneb.
- Cynorthwyo'r Rheolwr neu'r Goruchwyliwr i ddarparu gwasanaethau gweinyddol o ansawdd uchel yn y Tîm Cynnal.
- Parodrwydd i fynychu cyrsiau hyfforddiant o bryd i'w gilydd er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ymwneud â dyletswyddau deiliad y swydd.
- Yn absenoldeb y Rheolwr neu'r Goruchwyliwr, gweithio ochr yn ochr ag uwch staff y tîm cynnal a bod yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y tîm.
- Yr angen i sicrhau cyfrinachedd.

**Gweithio gyda phobl eraill**

- Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio fel aelod o dîm agos yn ogystal â gweithio ar ei liwt ei hun.
- Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio ar draws sectorau sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid amlddisgyblaeth, gyda chymorth y rheolwr.
- Mae sgiliau cyfathrebu gwych, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn ofynnol er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd wneud y canlynol:

- Rhoi, derbyn, a chyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol i bartïon perthnasol, yn benodol cydweithwyr, preswylwyr a chontractwyr.
- Cyfathrebu â'r holl staff cynnal yn ClwydAlyn wrth ryngweithio bob dydd ac yn ystod cyfarfodydd staff.
- Darparu gwybodaeth berthnasol i staff ynglŷn â'r ddarpariaeth gwasanaeth, gwneir hyn drwy sicrhau bod systemau gweinyddol effeithiol a hygyrch yn cael eu cynnal yn y busnes. Yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr a'r Goruchwyliwr, cwblhau unrhyw dasgau gweinyddol sydd o gymorth i ddarparu'r gwasanaeth, gallai hyn gynnwys tasgau gweinyddol cyffredinol a/neu benodol.
- Cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt, y Tîm Cynnal a'r Swyddogion Rheoli Asedau ynglŷn â materion cynnal.

Page 3

**Ynglŷn â ClwydAlyn**

Cafodd ClwydAlyn, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig heb fod yn elusennol, ei sefydlu yn 1978 ac mae bellach yn rheoli dros 6,500 o gartrefi ac yn cyflogi 760 o bobl. Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rheoli tai, gan gynnwys tai â gofal a chymorth, a gwasanaethau datblygu, trwsio a chynnal ar draws Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn)

Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd a phobl sengl, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal arbenigol a nyrsio, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli prydles, tai canolradd a thai rhent. Trosiant y Grŵp yw £64m.

Rydym yn Gymdeithas Dai uchelgeisiol ac mae ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yn ganolog i'n holl waith. Yn ein barn ni, nid yw'n iawn bod cymaint o anghydraddoldeb a thlodi ar draws ein rhanbarth, ac rydym yn gwybod bod hyn yn cael effaith ar bob agwedd ar fywydau pobl. Bedair blynedd yn ôl, gwnaethom benderfynu rhoi'r gorau i droi pobl allan o'n cartrefi ac rydym yn defnyddio ein harian a'n dylanwad i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac i weithio er budd newid ar draws ein gwlad

Page 4

Manteision

Pam gweithio i ni?

Buddion Swyddi

• Ydych chi'n chwilio am gydbwysedd gwych rhwng bywyd a gwaith?

• Hoffech chi gael 25 diwrnod o wyliau blynyddol â thâl (yn cynyddu i 30 diwrnod), gyda'r cyfle i werthu/prynu rhagor o wyliau blynyddol?

• Derbyn hyd at 8% o gyfraniadau pensiwn gan eich cyflogwr.

• Ymuno â chynllun Beicio i'r Gwaith.

• Derbyn talebau gofal llygaid.

• Darperir prydau poeth am ddim i staff yn y gwaith.

• Pecyn mamolaeth gwych a llawer o fuddion eraill y cwmni.

Mae sawl ffordd o ymgeisio:

Y dull traddodiadol

Anfonwch eich CV diweddaraf atom sy'n dangos eich hanes gyrfa llawn a datganiad yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a'r sgiliau a'r profiad sydd gennych.

Anfonwch ffilm fer atom

Ffilm fer heb fod yn hirach na 3 munud yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a'r sgiliau a'r profiad sydd gennych, ynghyd â llythyr/e-bost atodol byr

ymgeisiwch yn clwydalyn.co.uk

14 Mai yw'r dyddiad cau

Aseswyd bod Gwiriad Lefel Uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (heb y rhestr waharddedig) yn ofynnol ar gyfer y swydd hon. Bydd angen i staff ddangos drwy eu gwiriad DBS nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu neu wedi'u disbyddu,

rhybuddiadau, ceryddon, neu rybuddion a fyddai'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl. Bydd unrhyw risgiau a nodir gan y gwiriad DBS yn cael eu hadolygu gan y Grŵp a chynhelir Asesiad Risg. Gall canlyniad yr Asesiad Risg olygu bod cynigion am swyddi yn cael eu tynnu'n ôl neu gall arwain at adolygu cyflogaeth staff presennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi a Gweithdrefn DBS y Grŵp sydd ar gael gan y Tîm AD